

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2016 Rhif 358 (Cy. 111)**

**CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU**

**Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol  
(Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau  
Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016**

*Gwnaed* - - - - 2 Mawrth 2016  
*Yn dod i rym* - - 3 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 333 o'r Ddeddf honno(2) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran holl dir Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016**

2.—(1) Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016(4) wedi eu diwygio fel a nodir yn rheoliad 3.

(2) Os nad yw—

(a) Gorchymyn Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir (Esemptiad) (Cymru a Lloegr) 2016(5); a

- (1) [11990 p. 8](#). Mewnosodwyd Adran 62D gan adran 19 o [Ddeddf Cynllunio \(Cymru\) 2015 \(dccc 4\)](#).  
(2) Diwygiwyd adran 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 333 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.  
(3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ([O.S. 1999/672](#)), gweler yr eitem yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru [2006 \(p. 32\)](#) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.  
(4) [O.S. 2016/53 \(W.23\)](#).  
(5) [O.S. 2016/21](#)

- (b) Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir) 2016<sup>(6)</sup>

wedi dod i rym ar y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym, nid yw'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn cael effaith hyd nes y bydd y Gorchmynion hynny wedi dod i rym.

3.—(1) Yn rheoliad 2 (Dehongli) yn y lle priodol mewnosoder “ystyr “Deddf 2008” (*“the 2008 Act”*) yw Deddf Cynllunio 2008<sup>(7)</sup>”.

(2) Yn rheoliad 3(1)(a) ar ôl “gorsaf gynhyrchu” mewnosoder “ac eithrio gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir”;

(3) Ar ôl rheoliad 3(1)(a) mewnosoder—

“(aa) adeiladu, estyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir”;

(4) Yn rheoliad 4(3) (Gorsafoedd cynhyrchu)—

(a) yn y diffiniad o “gorsaf gynhyrchu” (*“generating station”*) ar ôl “sy'n cynhyrchu trydan” mewnosoder “ond nid yw'n cynnwys gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir”;

(b) mewnosoder yn y lle priodol—

“ystyr “gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir” (*“onshore wind generating station”*) yw gorsaf gynhyrchu—

(a) sy'n cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt;

(b) sydd wedi ei lleoli yng Nghymru, ond nid mewn dyfroedd yng Nghymru nac yn gyfagos â Chymru hyd at ffin y môr tiriogaethol i gyfeiriad y môr; ac

(c) nad yw'n orsaf gynhyrchu y rhoddwyd cydsyniad mewn cysylltiad â hi—

(i) o dan adran 36(1) o Ddeddf Trydan 1989<sup>(8)</sup>; neu

(ii) o dan adran 114 o Ddeddf 2008,

cyn i'r Gorchmynion priodol ddod i rym ac sy'n parhau mewn grym, a

(d) nad yw'n orsaf gynhyrchu—

(i) y mae cais ar gyfer gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu mewn cysylltiad â hi wedi ei dderbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 55 o Ddeddf 2008 (Derbyn ceisiadau) ond nid yw wedi ei benderfynu cyn y dyddiad y daw'r Gorchmynion hyn i rym; neu

(ii) yn dilyn adolygiad barnwrol o unrhyw benderfyniad i wrthod derbyn cais am gydsyniad datblygu neu benderfyniad i wrthod cydsyniad datblygu, y mae cais ar gyfer gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu mewn cysylltiad â hi wedi ei dderbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond nid yw wedi ei benderfynu cyn y dyddiad y daw'r Gorchmynion i rym.”

(c) mewnosoder yn y lle priodol—

“ystyr “y Gorchmynion” (*“the Orders”*) yw—

(a) Gorchymyn Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir (Esemptiad) (Cymru a Lloegr) 2016<sup>(9)</sup>; a

(b) Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir) 2016.”

<sup>(6)</sup> O.S. 2016/306

<sup>(7)</sup> p. 29.

<sup>(8)</sup> p. 29.

<sup>(9)</sup> O.S. 2016/21

(d) Ar ôl rheoliad 4 mewnosoder—

**“Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir**

**4A.—**(1) Nid yw adeiladu gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir o fewn rheoliad 3(1)(aa) ac eithrio pan ddisgwylir i'r orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir (pan gaiff ei hadeiladu) fod â gallu cynhyrchu gosodedig o 10 megawat neu uwch.

(2) Nid yw estyn neu addasu gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir o fewn rheoliad 3(1)(a) ac eithrio pan ddisgwylir i effaith yr estyn neu'r addasu gynyddu'r gallu cynhyrchu gosodedig gan o leiaf 10 megawat.

(3) Yn y rheoliad hwn mae i “gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir” a “gallu cynhyrchu gosodedig” yr ystyron a roddir yn rheoliad 4(3).”

2 Mawrth 2016

*Carl Sargeant*  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o  
Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn darparu bod adeiladu gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir (fferm wynt ar y tir) sydd â gallu cynhyrchu rhwng 10 a 50 megawat o arwyddocâd cenedlaethol at ddibenion adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Maent hefyd yn darparu bod estyn neu addasu fferm wynt ar y tir o arwyddocâd cenedlaethol os mai effaith y gwaith estyn neu addasu bydd cynyddu'r gallu cynhyrchu gan o leiaf 10 megawat ond nid fel bod y gallu cynhyrchu gosodedig yn uwch na 50 megawat.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r meini prawf o ran bod adeiladu, estyn neu addasu fferm wynt ar y tir yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

Nid yw'r diwygiadau a wneir i'r Prif Reoliadau yn cymryd effaith hyd nes bod Gorchymyn Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir (Esemptiad) (Cymru a Lloegr) 2016 a Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir) 2016 wedi dod i rym.

Effaith Gorchymyn Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir (Esemptiad) (Cymru a Lloegr) 2016 yw nad oes angen cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru a Lloegr o dan adran 36(4) o Ddeddf Trydan 1989, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed.

Effaith Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan o Ynni'r Gwynt ar y Tir) 2016 yw nad oes angen cydsyniad datblygu mwyach ar gyfer adeiladu, addasu neu estyn ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau. Mae'n diwygio'r diffiniad o "gorsaf gynhyrchu" ac yn mewnosod diffiniadau o "gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir" a "y Gorchmynion".

Mae rheoliad 3 hefyd yn mewnosod rheoliad newydd 4A. Mae'r rheoliad newydd yn nodi'r meini prawf o ran bod adeiladu, estyn neu addasu fferm wynt ar y tir yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

Effaith y diwygiadau yn rheoliad 3 yw bod rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio i (a) adeiladu ffermydd gwynt ar y tir fydd â gallu cynhyrchu o 10 megawat neu uwch, a (b) estyn neu addasu fferm wynt ar y tir mewn modd sy'n cynyddu ei gallu cynhyrchu disgwylidig gan 10 megawat neu uwch, yng Nghymru i Weinidogion Cymru.

Gwneir darpariaethau arbed ar gyfer cydsyniadau o dan Ddeddf Trydan 1989, cydsyniadau datblygu o dan Ddeddf 2008 a cheisiadau ar gyfer cydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008 a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Lluniwyd asesiad effaith mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.